

Arafu i ddim?

Tynnu'r rhwystrau rhag
rhagor o effeithlonrwydd ynni
a datgarboneiddio tai preifat
yng Nghymru

**cyngor ar
bopeth**

**citizens
advice**


Cyflwyniad

Mae prisiau nwy wedi cynyddu i lefelau digynsail, gan beri i filiau ynni ddod yn gynyddol anfforddiadwy. Gyda disgwyl i brisiau aros yn uchel hyd yn oed ar ôl i Gynllun Gwarant Pris Ynni Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddod i ben, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth yn ei gallu gyda'r pwerau sydd ganddi i sicrhau bod cartrefi'n cael eu hamddiffyn rhag ansefydlogrwydd parhaus yn y farchnad nwy.

Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi dod â'r her ddeuol – cael gwared â thlodi tanwydd a throsglwyddo i sero net – i sylw clir. Ac er bod dirfawr angen cymorth argyfwng, yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw datrysiad rhagweithiol i'n cael ni allan o'r cylch hwn o gymorth argyfwng adweithiol.

Effeithlonrwydd ynni yw'r datrysiad hwnnw. Bydd cynyddu mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio yn helpu i gadw cartrefi'n gynhesach gan ddefnyddio llai o ynni i wneud hynny, a bydd yn helpu i baratoi cartrefi i drosglwyddo i wres carbon isel.

Serch hynny, mae gormod o rwystrau ar hyn o bryd sy'n atal pobl rhag gweithredu. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n gyflym i gael gwared ar y rhwystrau hyn, neu bydd yr ymdrechion i ddod â thlodi tanwydd i ben a throsglwyddo i sero net, yn arafu i ddim.



Mae costau ynni'n mynd allan o reolaeth

Hyd yn oed gyda'r Gwarant Pris Ynni, mae'r risg o brofi tlodi tanwydd yn cynyddu


Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022 y byddai costau ynni cynyddol yn gadael 45% o gartrefi mewn tlodi tanwydd.¹ Mae costau wedi cynyddu 26% ers hynny i £2,500 am ddefnydd cyfartalog, felly ni allwn ond tybio bod y nifer hwn yn uwch fyth erbyn hyn.

Mae costau ynni bellach yn cyfrif am 10% o'r incwm canolrifol. A gydag amcangyfrifon presennol yn nodi costau o £3,700 ym mis Ebrill 2023 os bydd y Gwarant Pris Ynni yn cael ei dynnu, gallai pethau waethygu cyn iddyn nhw ddechrau gwella.²

Mae'r cynnydd enfawr hwn yn golygu bod llawer o bobl sydd erioed wedi profi caledi ariannol o'r blaen, bellach yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng gwresogi a bwyta y gaeaf yma. Ac ar gyfer cartrefi ar yr incymau isaf, mae pwysau costau byw yn golygu efallai na fydd modd iddyn nhw fforddio'r un o'r ddau.

Mae incymau yng Nghymru yn is nag unrhyw ran arall o wledydd Prydain, gan olygu bod cartrefi Cymru ymhlith y rhai sydd wedi'u taro waethaf gan gostau cynyddol. Ym mis Awst, canfu ein hymchwil fod 14% o berchnogion tai yng Nghymru yn methu â fforddio eu costau ynni, ffigwr sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Lloegr o 9%.³

Canran yr incwm cartref blynyddol canolrifol sy'n cael ei wario ar ynni, Cymru⁴



Stori Jane*

Daeth Jane at Cyngor ar Bopeth i gael cymorth gyda nifer o faterion. Wrth siarad gyda ni, eglurodd ei bod yn poeni am y gaeaf sydd i ddod a'r cynnydd ym mhris ynni, ac nad oedd hi'n siŵr sut byddai'n ymdopi. Eglurodd ei bod yn 'ceisio cadw'i phen uwch y dŵr' gyda sawl bil yn cynyddu, gan dalu dyledion presennol ar yr un pryd. Mae arian mor dynn nes bod angen i'w theulu ddod â phrydau poeth iddi, ac mae'n ofni y bydd yn rhaid iddi fynd i'r gwely'n gynnar i osgoi rhoi'r gwres ymlaen. Roedd Jane yn poeni am yr effaith y byddai cartref oer yn ei chael ar ei hiechyd meddwl a chorfforol sydd eisoes yn wael.

Mae cartrefi sy'n gollwng gwres yn gwastraffu arian


Mae cartrefi aneffeithlon yn defnyddio mwy o ynni i'w gwresogi, ac yn gwaethygu effaith prisiau cynyddol nwy

Mae cartrefi Prydain gyda'r rhai lleiaf effeithlon yn Ewrop, sy'n golygu bod cyfran sylweddol o'r ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi yn cael ei golli bron yn syth drwy waliau, toi a ffenestri.⁵

Mae'r cartref cyfartalog yn talu bron i £350 y flwyddyn mewn 'cosb aneffeithlonrwydd'. A gallai'r bobl sy'n byw yn y cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio waethaf fod yn gwastraffu dros £900, sydd bron yn draean (31%) o'u bil ynni blyneddol.⁶ Mewn argyfwng costau byw, ni all defnyddwyr fforddio gwastraffu cymaint â hyn o arian, ac mae llawer yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddewis ond peidio â gwresogi eu tai o gwbl.

Ac er ei bod yn iawn ein bod ni'n canolbwyntio ar gymorth argyfwng y gaeaf hwn, nid yw'r ymyriadau hyn yn gwneud dim byd i fynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at yr argyfwng presennol – ein dibyniaeth ar nwy a lefel yr ynni sy'n cael ei wastraffu oherwydd cartrefi aneffeithlon sy'n gollwng gwres.


Mae cynyddu effeithlonrwydd ynni ein cartrefi yn lleihau defnydd o ynni, yn lleihau bregusrwydd i brisiau nwy ansefydlog byd-eang, yn ogystal â lleihau allyriadau a pharatoi cartrefi ar gyfer dyfodol carbon isel.





Maint y broblem

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi aneffeithlon

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn anelu i gael perfformiad ynni o EPC C o leiaf ar gyfer pob cartref erbyn 2035. Serch hynny, mae ein hymchwil yn awgrymu bod Cymru yn bell o gyrraedd y targed hwnnw, gyda 3 ymhob 4 cartref preifat yn methu â chyrraedd y safon hon.⁸ Mae hyn yn golygu bod dros hanner miliwn o gartrefi yn gwastraffu arian ar wres sy'n dianc drwy fylchau a chraciau mewn adeiladau ac yn costio £440 miliwn y flwyddyn mewn costau ynni ychwanegol.⁹ Mae sawl ffactor sy'n cyfrannu at effeithlonrwydd ynni gwael cartrefi Cymru:

 **Hen stoc dai.** Mae hen dai yn fwy tebygol o fod yn aneffeithlon ac adeiladwyd 16% o gartrefi Cymru cyn 1900.¹⁰ Dyma'r cyfanswm rhanbarthol uchaf ond un yng Nghymru a Lloegr.

 **Lefelau inswleiddio isel.** Mae cartrefi Prydain yn colli gwres dair gwaith yn fwy cyflym na chartrefi yn Ewrop sydd wedi'u hinswleiddio'n well.¹¹ Mae hyn yn golygu bod cartrefi'n gwario mwy na'r angen i gadw'n gynnes ac yn sych yn ystod y gaeaf, ac yn ei chael yn anodd cadw cartrefi'n oer yn yr haf.


 **Mae cyfraddau adeiladu isel** yn golygu llai o gartrefi effeithlon. Mae gan 98% o'r tai a adeiladwyd ar ôl 2012 gradd EPC C neu uwch, o gymharu â'r ffigur cyfartalog o 40%.¹² Yn 2021, cwblhawyd 0.5 cartref newydd i bob 1,000 o ddinasyddion yng Nghymru, o gymharu â 3 yn Lloegr.¹³

% y cartrefi sydd â gradd EPC C neu is



Dwyfor Meirionnydd yw'r etholaeth sy'n perfformio waethaf yng Nghymru, lle mae gan 4 ymhob 5 cartref radd EPC is nag C.

De Caerdydd a Phenarth yw'r etholaeth sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda 55% o'r cartrefi'n cyrraedd gradd EPC C o leiaf. Serch hynny, mae hyn yn dal i gynrychioli bron i 17,000 o gartrefi, y cyfanswm etholaeth uchaf ond un y tu ôl i Ganol Caerdydd.



Her ddatgarboneiddio

Mae gorddibyniaeth ar systemau gwresogi tanwydd ffosil yn golygu bod her ddatgarboneiddio i ddod

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i ddefnyddio ymagwedd 'gwaethaf yn gyntaf' ac 'adeiladwaith yn gyntaf' tuag at effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Rydyn ni wedi croesawu'r ymagwedd hon gan ei bod yn blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan wneud cartrefi'n gynhesach, yn wyrddach, ac yn rhatach eu rhedeg. Serch hynny, drwy flaenoriaethu gosod boeleri newydd drwy gynllun Nyth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo yn y nod hwn, sy'n golygu y bydd angen rhagor o fuddsoddiad nawr i gyrraedd sero net.

Mae ein hymchwil yn dangos y bydd dros hanner (57%) y cartrefi yng Nghymru yn costio dros £14,000 i'w datgarboneiddio'n llawn.¹⁴ Mae'r buddsoddiad cyfartalog sydd ei angen ychydig dros £15,000 y cartref, ac mae'r rhan fwyaf o'r gost honno ar gyfer pwmp gwres.

Mae prisiau ynni cynyddol wedi dod â chostau rhedeg pwmp gwres i lawr o gymharu â boeler nwy, ac maen nhw'n dechrau gwneud datgarboneiddio yn opsiwn mwy deniadol. Serch hynny, mae'n dal i fod yn sylweddol rhatach rhedeg pwmp gwres mewn adeilad sydd wedi'i inswleiddio'n dda nag un aneffeithlon, a dyna pam ei bod hi mor hanfodol cael effeithlonrwydd ynni yn iawn. Waeth beth yw'r ffynhonnell wresogi yn y dyfodol, bydd cartref ynni effeithlon bob amser yn gynhesach, yn rhatach i'w redeg, ac yn defnyddio llai o garbon.



Mae dros ddwy ran o dair (67%) o gartrefi yn cael eu hystyried fel cartrefi â galw uchel am wres, sy'n golygu y gallen nhw elwa ar inswleiddio ychwanegol.¹⁵

63%

75%

% y cartrefi â galw uchel am wres




Adeiladwyd dros 1 ymhob 10 (16%) o gartrefi cyn 1900 ac maen nhw'n debygol o fod â waliau solet. Mae hyn yn codi i bron i 1 ymhob 3 (28%) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yn aml, mae adeiladau hŷn yn fwy drud i'w trin, ac mae inswleiddio waliau solet yn costio bron i 12 gwaith yn fwy na waliau ceudod.¹⁶

10%

28%

% y cartrefi a adeiladwyd cyn 1900



Mae dros 1 ymhob 10 (17%) cartref â graddau effeithlonrwydd isel ac wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig, sy'n golygu y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar gartrefi i ariannu gwaith. Mae hyn yn codi i bron i 1 ymhob 2 yn y Rhondda (47%) a Chwm Cynon (41%).¹⁷

7%

22%

% y cartrefi EPC isel mewn ardaloedd difreintiedig

Rhwystrau rhag cyrraedd sero net

Mae defnyddwyr yn sownd. Allan nhw ddim fforddio eu biliau ynni na'r gwelliannau sydd eu hangen i'w lleihau nhw chwaith

Hyd yn oed gyda phrisiau ynni'n cael eu capio ar £2,500 ar gyfer defnydd cyfartalog, bydd llawer o ddefnyddwyr yn dal i'w chael yn anodd talu eu biliau. Mae Gwarant Pris Ynni Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn amddiffyn defnyddwyr rhag cynnydd pellach mewn prisiau yn y tymor byr, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at yr argyfwng presennol – ein dibyniaeth ar nwy a lefel yr ynni a gaiff ei wastraffu oherwydd cartrefi aneffeithlon sy'n gollwng gwres.

Mae cynyddu effeithlonrwydd ynni ein cartrefi yn lleihau defnydd o ynni, yn lleihau ein bregusrwydd i brisiau nwy ansefydlog yn fyd-eang, ac yn dechrau ein paratoi ar gyfer sero net yn ogystal â darparu manteision ehangach i iechyd y boblogaeth a datblygiad busnes.

Yn ogystal, mae'r helbul gwleidyddol yn San Steffan wedi arwain at gostau uwch a lefelau uwch o ansicrwydd ar draws marchnadoedd, gan atal buddsoddiad angenrheidiol yn y sector effeithlonrwydd ynni.

Mae ein dadansoddiad wedi dangos, er mwyn cyflawni sero net a thaclo tloedi tanwydd, bod angen i gynlluniau hysbysu, amddiffyn a chefnogi. Er bod ansicrwydd yn parhau ledled gwledydd Prydain, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i gymryd yr awenau yn y maes hwn drwy gael gwared ar y rhwystrau rhag ymgysylltiad gan fusnesau a defnyddwyr.



Rhwystrau defnyddwyr:




Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth



Diffyg cyllid neu opsiynau ariannu



Diffyg amddiffyniadau i ddefnyddwyr



Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth




Dydy llawer o ddefnyddwyr ddim yn ymwybodol o'r effaith y gallai effeithlonrwydd ynni ei chael ar eu biliau

Er bod 93% o berchnogion cartrefi yng Nghymru yn pryderu am eu biliau ynni, dim ond 35% sy'n ystyried gosod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi ar hyn o bryd.¹⁸ Pan ofynnwyd pam nad oedden nhw'n ystyried gosod mesurau effeithlonrwydd ynni, nid oedd bron i 1 ymhob 4 (22%) o berchnogion tai yng Nghymru wedi'u hargyhoeddi o'r manteision..

Mae cartrefi ynni effeithlon yn costio llai i'w rhedeg a gallai'r defnyddiwr cyffredin arbed £350 y flwyddyn drwy gynyddu perfformiad ynni eu cartrefi. Felly, mae angen mwy o wybodaeth ar ddefnyddwyr ar frys am fanteision effeithlonrwydd ynni a chyngor ar y mesurau mwyaf priodol ar gyfer eu cartrefi.

Ymwybyddiaeth perchnogion tai o gynllun Nyth²¹

- Cwbl ymwybodol o'r cynllun hwn a'r hyn mae'n ei ddarparu
- Rhannol ymwybodol o'r cynllun hwn a'r hyn mae'n ei ddarparu
- Rydw i wedi clywed am y cynllun hwn, ond dydw i ddim yn gwybod beth mae'n ei ddarparu




Dydy llawer ddim yn ymwybodol o fodolaeth cynlluniau sydd ar gael i'w helpu

Mae nifer o gynlluniau effeithlonrwydd ynni sy'n bodoli i helpu'r rhai ar yr incymau isaf. Ond mae ein hymchwil yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r cymorth hwn yn wael.

Nid yw dros 7 ymhob 10 (71%) o berchnogion tai yng Nghymru wedi clywed am y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO). Mae ymwybyddiaeth o gynllun Nyth yn well, ond roedd bron i hanner (41%) y perchnogion tai heb glywed amdano.¹⁹

Mae angen cyngor i berchnogion tai ar frys, a thra bod ymgyrch tanwydd gaeaf Nyth i'w chrosawu, mae angen dybryd am gyngor ar effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio y tu hwnt i'r cymorth argyfwng.

Gwybodaeth a hyder perchnogion tai i osod mesurau effeithlonrwydd ynni²⁰



Diffyg cyllid ar gyfer y bobl ar yr incymau isaf

Nid yw cynlluniau i helpu'r rhai ar yr incymau isaf yn cael digon o effaith

Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi'i dylunio i leihau costau ynni ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tldi tanwydd. Mae'r ymagwedd hon yn gwbl gydnaws ag effeithlonrwydd ynni uwch a datgarboneiddio, gan fod cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n dda yn gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg, ac yn creu llai o ôl troed carbon.

Serch hynny, fel y nodwyd mewn ffynonellau amrywiol, mae elfen Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn blaenoriaethu systemau gwresogi tanwydd ffosil dros fesurau eraill.²² Mae'r cap costau hefyd yn aml yn golygu nad yw cartrefi mewn sefyllfa i allu fforddio mesurau effeithlonrwydd ynni a diweddarau systemau gwresogi.

Felly er y gallai rhaglen Cartrefi Clyd inswleiddio mewn egwyddor, a allai wneud cartrefi'n gynhesach ac yn rhatach i'w rhedeg yn ogystal â'u paratoi nhw ar gyfer y trosglwyddiad i wres carbon isel, mewn gwirionedd mae'r cynllun yn aml yn gweithredu fel cymorth argyfwng ar gyfer cartrefi incwm isel â boeler wedi torri.²³


Rydyn ni'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac felly disgwyliwn y bydd cwmpas rownd nesaf cynllun Cartrefi Clyd yn newid yn unol â hynny.²⁴

Serch hynny, wrth i ni aros i'r cynllun nesaf gael ei roi ar waith, credwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gynyddu effaith yr ariannu presennol, fel gwneud gwell defnydd o'r cyllid Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni.

Mesurau a osodwyd gan Nyth Ebrill 2018 - Mawrth 2021²⁵

Mesurau	Nifer yr eiddo
System wresogi tanwydd ffosil	12,233 (95.1%)
System wresogi drydanol	583 (4.5%)
System wresogi tanwydd solet	44 (0.3%)
Pwmp gwres ffynhonnell aer	3 (0%)
Inswleiddio atig	827 (6%)

Costau, lleihau biliau ac arbedion carbon drwy fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer tŷ pâr²⁶



Diffyg opsiynau cyllid ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu'

Mae diffyg opsiynau ariannu ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys am gynlluniau presennol

Gan ystyried bod dros 3 ymhob 4 cartref â phreswylwyr â gradd effeithlonrwydd isel²⁷ ond bod y nifer sy'n gymwys am gynlluniau presennol yn llawer is, bydd yn rhaid i lawer o gartrefi ariannu gwaith yn breifat os ydynt am wireddu manteision effeithlonrwydd ynni uwch a datgarboneiddio.²⁸

Ar hyn o bryd, y prif opsiynau ar gyfer pobl yn y rhan hon o'r farchnad yw ariannu'r gwaith gydag arian parod, rhyddhau ecwiti o'u cartrefi, neu gael benthyciad heb ei warantu.

Ond gyda chartrefi'n ei chael yn anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw, mae ein data'n awgrymu bod cyfran sylweddol o'r farchnad sy'n 'gallu talu' yn profi anawsterau sylweddol yn fforddio'r costau cychwynnol. Yn wir, pan ofynnwyd pam nad oedden nhw'n ystyried uwchraddiadau effeithlonrwydd ynni i'w cartrefi, cost oedd y rheswm a roddwyd amlaf gan berchnogion tai yng Nghymru (68%).²⁹

Felly, bydd angen mecanweithiau ariannol mwy creadigol i helpu defnyddwyr i sicrhau manteision cartref ynni effeithlon a datgarboneiddio, fel grantiau rhannol ar raddfa lithro yn seiliedig ar incwm cartref.

Mae'r gost gyfartalog i ddod â thai i radd EPC C ac i ddatgarboneiddio'r system wresogi ychydig dros

£15,000



Cynilion: lefel gyfartalog cynilion yng Nghymru yw £5,000. Mae dros 1 ymhob 4 o berchnogion tai â £1,000 neu lai mewn cynilion.³⁰

Ecwiti cartref: mae gan y perchennog tŷ cyfartalog yng Nghymru lai na £50,000 o ecwiti yn eu cartrefi. Byddai costau datgarboneiddio yn cynrychioli bron i draean (31%) o'r ffigur hwn.³¹

Benthyciadau: hyd yn oed ar log o 0%, byddai benthyciad o £15,000 dros 7 mlynedd yn costio £179 mewn ad-daliadau misol. Mae bron i 1 ymhob 2 (48%) o ddefnyddwyr yng Nghymru â £150 neu lai ar ôl ar ôl talu am hanfodion.³²

Diffyg amddiffyniadau

Nid oes gan ddefnyddwyr hyder yn y farchnad, ac maent mewn perygl cynyddol o sgamiau

Er bod ymwybyddiaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio yn dda ar y cyfan, mae hyder o ran cael y mesurau hyn wedi'u gosod yn llawer is, gyda llai na 2 ymhob 5 (18%) o berchnogion tai yng Nghymru â hyder mewn gosod pwmp gwres.³³

Ar hyn o bryd, mae'n rhy anodd i ddefnyddwyr adnabod masnachwr dibynadwy sy'n eu gwneud yn agored i sgamiau. Ar hyn o bryd, mae o leiaf 12 gwahanol gynllun defnyddwyr sy'n delio ag effeithlonrwydd ynni, gwres carbon isel, a newidiadau ynni adnewyddadwy graddfa fach y gall pobl eu gwneud i'w cartrefi. Ond mae nifer a chwmpas y gwahanol gynlluniau hyn yn ei gwneud yn anodd gwybod pa rai sy'n drylwyr ac yn ddibynadwy.

Ac os oes rhywbeth yn mynd o'i le, mae hyd yn oed defnyddwyr sydd wedi cael gwaith gan osodwr achrededig yn aml yn cael eu gadael heb lwybr unioni, gan nad oes un o'r cynlluniau presennol yn cynnig prosesau datrys anghydfod neu iawndal.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i sefydlu cynllun achredu gorfodol i unrhyw fusnes sy'n weithredol yn y farchnad hon. Dylai'r corff achredu ac arolygu hwn:

- ✓ Fod yn barod i awdurdodi cwmnïau sy'n weithredol yn y farchnad hon
- ✓ Meddu ar bwerau i archwilio darparwyr ac i atal cwmni sy'n cwmpo'n is na'r safonau gofynnol rhag gweithredu
- ✓ Cymryd camau i osod canlyniadau clir y gellir eu gorfodi os yw cwmnïau'n torri'r rheolau



Stori Nigel*

Ffoniodd Nigel ein gwasanaeth defnyddwyr ar ran ei fam, sy'n 81 oed. Roedd ei fam am wella effeithlonrwydd ynni ei heiddo, felly talodd fasnachwr i osod inswleiddiad a gwaith cysylltiedig arall.

Dechreuodd y gwaith dridiau ar ôl gwneud cytundeb, a gofynnodd y masnachwr am £3,4000 ymlaen llaw. Yna, gofynnodd am £3,400 arall. Aeth brawd Nigel (sy'n drydanwr cymwys) i dŷ ei fam yn nes ymlaen i edrych ar ffan echdynnu a osodwyd fel rhan o'r gwaith. Dywedodd fod hyn wedi'i wneud yn anghywir a bod y gwifrau'n beryglus.

Yn ogystal, inswleiddiad ewyn chwistrell oedd yr inswleiddiad a osodwyd, sydd nawr yn golygu nad oes modd cael morgais ar yr eiddo.

Talodd mam Nigel am waith drud o ansawdd isel, ac mae nawr yn gorfodi talu am waith adfer costus i wella'r inswleiddiad a thrwsio'r problemau eraill.

Her cyrraedd sero net



Fydd cyrraedd sero net ddim yn hawdd. Ond mae cynyddu effeithlonrwydd ynni yn lle da i ddechrau

Mae llawer o gwestiynau yn dal i'w hateb am sut bydd Cymru a gwledydd Prydain yn cyrraedd sero net. Ond fel y mae'r argyfwng presennol wedi dangos, mae aros cyn gweithredu yn dod â risg.

Mae ein cartrefi'n gollwng gwres ac yn oer, yn ddrud, ac mae eu rhedeg yn llygru. Effeithlonrwydd ynni uwch yw'r ateb i'r problemau hyn, ac os caiff ei wneud yn iawn, mae'n opsiwn sydd â risg isel iawn o ddifaru. Mae cartrefi effeithlon yn gynhesach yn y gaeaf, yn oerach yn yr haf, yn costio llai i'w rhedeg ac yn haws i'w trosglwyddo i wres carbon isel.

Mae cyfeiriad teithio Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn aneglur, sy'n ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed i Lywodraeth Cymru wneud ei hymrwymiad i ddatgarboneiddio yn glir, ac anfon neges o hyder i ddefnyddwyr a'r diwydiant bod cefnogaeth ar gael ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a throsglwyddo i sero net.

Ac er efallai bod mesurau brys fel banciau cynnes yn angenrheidiol y gaeaf hwn, mae'n hanfodol nad ydyn ni'n normaleiddio'r math hwn o gefnogaeth argyfwng. Nid yw'r broblem tai aneffeithlon yn diflannu, ac mae angen datrysiad ar frys, ac nid patsyn dros dro i'w guddio.

Argymhellion:

1

Dylai Llywodraeth Cymru helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer effeithlonrwydd ynni a manteision effeithlonrwydd ynni gydag ymgyrch ymwybyddiaeth defnyddwyr.

2

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod inswleiddio a gwelliannau eraill i adeiladwaith yn gonglfaen i gam nesaf Cynllun Cartrefi Clyd, a bod y cynllun yn defnyddio ffynonellau cyllid i gynyddu'r budd i gartrefi cymwys. Ac os bydd oedi cyn gweithredu'r rhaglen newydd, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod modd i fesurau inswleiddio ddigwydd ar yr un pryd ag ailosod boeleri.

3

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ariannu ar gyfer y farchnad 'gallu talu' drwy gynigion llwybr cyflym i ddatblygu a threalu cynhyrchion ariannu amgen i gefnogi perchnogion-feddianwyr i ôl-osod.

4

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol yng ngwledydd Prydain i gyflwyno amddiffyniadau i ddefnyddwyr yn y farchnad hon, fel cynllun achredu gorfodol.

Cyfeirnodau

1. Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Tlodi Tanwydd](#), Ebrill 2022
2. Cornwall Insight, ['Predicted fall in the April 2023 Price Cap but prices remain significantly above the EPG'](#), Tachwedd 2022
3. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
4. Dadansoddiad Cyngor ar Bopeth o: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [The effects of taxes and benefits on household income, disposable income estimate](#), 28 Mawrth 2022.
5. Tado Consulting, [UK homes losing heat up to three times faster than European neighbours](#), 20 Chwefror 2020
6. Dadansoddiad Cyngor ar Bopeth o ddefnydd o ynni yn ôl EPC
7. Nodyn i egluro bod pob cartref yn gwastraffu ynni. Dewisir EPC C fel y gwaelodlin gan mai dyma darged presennol y llywodraeth. Byddai cynyddu effeithlonrwydd ynni eiddo y tu hwnt i EPC C yn lleihau defnydd ac felly costau ymhellach.
8. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021
9. Dadansoddiad Cyngor ar Bopeth o ddefnydd o ynni yn ôl EPC a graddau EPC cartrefi yng ngwledydd Prydain
10. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021
11. Tado Consulting, [UK homes losing heat up to three times faster than European neighbours](#), 20 Chwefror 2020
12. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Energy efficiency of Housing, England and Wales, country and region](#), 10 Tachwedd 2021
13. Dadansoddiad Cyngor ar Bopeth o Ystadegau Cymru, [Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl cyfnod a deiliadaeth a; gov.uk, Live tables on housing supply: indicators of new supply](#)
14. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021. Diffinnir datgarboneiddio llawn fel cyrraedd EPC C a gosod system wresogi carbon isel
15. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021
16. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021
17. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021. Diffinnir ardal o amddifadedd fel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y 3 canradd isaf o ran mynegai o amddifadedd lluosog pob gwlad

Cyfeirnodau

18. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
19. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
20. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
21. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
22. Gweler; Cyngor ar Bopeth, [Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer rownd nesaf Rhaglen Cartrefi Clyd](#), Ebrill 2022 a; Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, [Tlodi tanwydd a Rhaglen Cartrefi Clyd](#), Mai 2022
23. Archwilio Cymru, [Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru](#), Tachwedd 2021
24. Llywodraeth Cymru, [Argymhellion adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 Tlodi Tanwydd a Rhaglen Cartrefi Clyd – Ymateb Llywodraeth Cymru](#), Gorffennaf 2022
25. Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2021
26. Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, [Boilers](#); [Roof and loft insulation](#); [Solid wall insulation](#); [Cavity wall insulation](#). Estimated carbon savings for gas boilers; EVPS, [Carbon Reduction](#), Mawrth 2021
27. Dadansoddiad o ddata Parity Projects ar nifer y cartrefi y bydd yn anodd eu datgarboneiddio a sut mae hynny'n amrywio yn ôl etholaeth, awdurdod lleol a rhanbarth, 2021
28. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Data etholaethol: Cyflwyno Credyd Cynhwysol](#), Medi 2022
29. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022
30. Arolygon ar-lein o 6,000+ o oedolion ym Mhrydain, ICM, Mai-Mehefin 2022
31. Dadansoddiad o ddata morgeisi a phrisiau tai. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Data etholaethol: prisiau tai](#), Medi 2022 a; FCA, [dangosfyrddau Data Gwerthiannau Cynnyrch Morgeisi](#), Mehefin 2022
32. Arolygon ar-lein o 6,000+ o oedolion ym Mhrydain, ICM, Ionawr 2022
33. Arolwg ar-lein o 2,000 o berchnogion tai ym Mhrydain, Opinium, 23-29 Awst 2022

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Rydyn ni'n darparu cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim i helpu pobl i oresgyn eu problemau.

Rydyn ni'n llais ar gyfer ein cleientiaid a defnyddwyr ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydyn ni yma i bawb.



citizensadvice.org.uk

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2022

Cyfranwyr: Cara Holmes a Benedict Guindi

Dylunio: Rhiannon Fuller

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.

Rhif elusen gofrestrdig 279057 .